Cofnodion Cyfarfod Arferol **CYNGOR TREF RHUTHUN**
a gynhaliwyd drwy gynhadledd fideo Zoom nos Lun 12 Gorffennaf 2021 am 7.00 pm.

YN BRESENNOL: Cynghorwyr Heather Williams (Maer), Menna Jones (Dirprwy Faer)

Cynghorwyr Stephen Beach, Jim Bryan, Christine Ellis, Gavin Harris, Ken Hawkins, Ian Lewney, Robert Owen-Ellis, Anne Roberts, Mike van der Eijk ac Ifan Wyn.

Cynghorwyr Sir Bobby Feeley, Huw Hilditch-Roberts ac Emrys Wynne.

59. CRONFA SEILWAITH DIGWYDDIADAU CYNGOR SIR DDINBYCH

Cafodd yr aelodau wybodaeth am Gronfa Seilwaith Digwyddiadau Cymunedol Sir Ddinbych Gyfan gwerth £128,000 ar gyfer y sir. Rhoddir cymorth i nifer gyfyngedig o ymgeiswyr dethol ddatblygu a darparu syniadau am brosiectau sy'n gallu dangos y canlyniadau allweddol canlynol:

- Bydd digwyddiadau yn haws ac yn fwy effeithlon i'w cynnal a'u trefnu
- Bydd digwyddiadau'n fwy cynaliadwy
- Bydd digwyddiadau'n gallu sicrhau profiad gwell i bawb

Byddai'n well gan Gyngor Sir Ddinbych i'r Cyngor Tref gydlynu ar draws Rhuthun gyfan, ond gall grwpiau cymunedol wneud cais uniongyrchol os yw eu prosiect yn cael ei gefnogi gan Gynghorydd Sir.

Eglurwyd fod Cyngor Sir Ddinbych yn prynu offer ar gyfer digwyddiadau a bydd ar gael i'w logi am ffi fechan o fis Mawrth 2022 ymlaen.

PENDERFYNWYD*: y bydd y gronfa'n cael ei hyrwyddo drwy dudalen Facebook yr Hen Lys, a bydd Cynghorwyr Tref yn hyrwyddo'r gronfa i'r grwpiau cymunedol y maent yn cydweithio â hwy. Bydd y prosiectau posibl hefyd yn cael eu hadolygu yn y cyfarfod pwerau brys ym mis Awst, fel y gellir cymryd agwedd gydlynol a sicrhau bod y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yn cael ei fodloni, sef 30 Medi.*

60. CROESO AC YMDDIHEURIADAU

Ymddiheuriadau: Cynghorwyr Ethan Jones a Jabez Oakes

61. DATGAN BUDDIANNAU

Cygnhorydd Robert Owen-Ellis – Eitem 21

62. ADRODDIAD Y MAER

Dywedodd y Maer ei bod wedi bod yn bresennol yn y cyfarfodydd a ganlyn:

22 Mehefin - Paratoi Datganiad i'r Wasg am Gronfa Cymorth Llifogydd Rhuthun a sesiwn tynnu lluniau gyda'r Parch Stuart Evans, y Cadeirydd.
23 Mehefin - Digwyddiad Rhwydweithio Adfywio Trefi a Chymunedau Cymru ar ôl Covid 19 a gynhaliwyd gan Gymorth Cynllunio Cymru ac Un Llais Cymru
25 Mehefin - Cyfarfod gyda Sian Clark, y Clerc newydd
26 Mehefin - Ymweld ag arddangosfa Gŵyl Rhuthun yn yr Hen Lys
1 Gorffennaf - Cyfarfod y Pwyllgor Craffu Ariannol gyda Hill and Roberts
2 Gorffennaf - Cyfarfod gyda Fineline ynglŷn â'r Gwasanaeth Dinesig.
2 Gorffennaf - Cyfarfod gyda Rheolwr Canolfan Gymunedol Llanfwrog
2 Gorffennaf – Cyfarfod gyda Rheolwr Gwesty Castell Rhuthun
4 Gorffennaf – Gwasanaeth Dinesig Cyngor Tref Dinbych
5 Gorffennaf – Cyfarfod gyda Tom Booty, Cyngor Sir Ddinbych

5 Gorffennaf – Is-bwyllgorau Adnoddau Dynol, Amwynderau a Chynllunio
6 Gorffennaf – Cyfarfod Blynyddol Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych
6 Gorffennaf - Pwyllgor Rheoli'r Hen Lys
8 Gorffennaf - Croesawu Grŵp Iechyd Meddwl Hafod i'r Hen Lys
11 Gorffennaf - Gwasanaeth Dinesig Cyngor Tref Rhuthun
Cysylltu ag amrywiol bobl ynglŷn â threfniadau'r Gwasanaeth Dinesig
Cysylltu ag amrywiol sefydliadau ynglŷn â phrosiect *Tremendous Trees* y Maer.

63. ADRODDIADAU'R AELODAU

Cyng Menna Jones (Dirprwy Faer)	- Cyfarfod gyda'r Maer, Dirprwy Glerc y Dref a Sian Clark, y clerc newydd. - Sesiwn yn yr Hen Lys yn ystod yr Arddangosfa.
Cyng. Stephen Beach	Gwirfoddoli yn Yr Hen Lys Gwirfoddoli gyda Gŵyl Rhuthun Taith Iechyd a Diogelwch o amgylch Ysgol Stryd y Rhos Is-bwyllgor Adnoddau Dynol
Cyng Jim Bryan	Gwirfoddoli yn Yr Hen Lys (bod yn bresennol, glanhau a phaentio) Gŵyl Rhuthun Is-bwyllgor Adnoddau Dynol Pwyllgor Rheoli'r Hen Lys
Cyng Christine Ellis	
Cyng Gavin Harris	Cynhadledd Cymorth Cynllunio Cymru Cyfarfod gyda Sara Green o Just Solutions Amrywiol gyfarfodydd pwyllgor Rhwydwaith *Urban Rooms* Gwirfoddoli yn Yr Hen Lys Cyfarfod gyda Tom Booty
Cyng Ken Hawkins	Rwyf wedi gofyn i Aerial Electrics newid bylb sydd wedi torri yn uned ddeheuol y system llifoleuadau ar gyfer Eglwys Sant Pedr
Cyng John Wynne Hughes	
Cyng Ian Lewney	Gwirfoddoli yn Yr Hen Lys Cyfarfod Craffu Ariannol
Cyng Jabez Oakes	
Cyng Robert Owen-Ellis	3 sesiwn ym Manc Bwyd Rhuthun
Cyng Anne Roberts	18/06 Arddangosfa Yr Hen Lys 23/06 Stori Rhuthun drwy Zoom 01/07 Pwyllgor Craffu Ariannol - TAW
Cyng Mike van der Eijk	
Cyng Ifan Wyn	

Llongyfarchodd y Cyng Ifan Wyn y Cyng Mike van der Eijk ar ei wobr gan Theatr Clwyd.

64. ADRODDIAD CYNGHORWYR SIR RHUTHUN

Rhoddodd y Cynghorydd Sir, Bobby Feeley y wybodaeth ddiweddaraf ar lafar: diolchodd i'r Maer am y Gwasanaeth Dinesig.

65. COFNODION Y CYFARFOD ARFEROL BLAENOROL

Mynegodd y Cyng Ifan Wyn ei bryderon nad oedd y papurau wedi cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog ar gyfer y cyfarfod, yn ôl gofynion polisi iaith Cyngor Tref Rhuthun. Nodwyd hyn. Byddai'r Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol yn dechrau yn ei swydd gyda'r Cyngor Tref ddydd Llun 26 Gorffennaf, a byddai hyn yn sicrhau bod yr holl bapurau'n ddwyieithog yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD*: bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Mehefin 2021 yn cael eu derbyn a'u cadarnhau fel cofnod cywir. Bydd cyfieithiad Cymraeg yn cael ei gyhoeddi cyn gynted â phosibl.*

66. MATERION YN CODI

Nid oedd materion yn codi

67. COFNODION Y PWYLLGOR AMWYNDERAU

Ymddiheurodd y Cyng Menna Jones (Cadeirydd) fod y papurau yn Saesneg yn unig. Gofynnodd a oedd yn iawn symud ymlaen a derbyn y cofnodion yn Saesneg. Trafododd yr aelodau gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Gorffennaf 2021.

PENDERFYNWYD*: derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Gorffennaf 2021. Bydd cyfieithiad Cymraeg yn cael ei gyhoeddi cyn gynted â phosibl..*

68. COFNODION Y PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU

Trafododd yr aelodau gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Gorffennaf 2021.

PENDERFYNWYD*: derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Gorffennaf 2021. Bydd cyfieithiad Cymraeg yn cael ei gyhoeddi cyn gynted â phosibl.*

69. COFNODION PWYLLGOR RHEOLI'R HEN LYS

Trafododd yr aelodau gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Gorffennaf 2021. Arweiniodd diweddariad byr am sut y bydd yr ardal Arddangos Manwerthwyr yn rhoi lle i fusnesau lleol hyrwyddo'u cynnyrch at drafodaeth am y modd y mae 'stryd fawr' Rhuthun yn dioddef. Dywedodd y Cyng Sir Huw Hilditch-Roberts ei fod wedi siarad â'r adran Economaidd yng Nghyngor Sir Ddinbych ac mai un o'r prif feysydd pryder yw bod y prinder lleoedd bwyta yn waeth nag y bu erioed.Gwnaed awgrym bod Cyngor Tref Rhuthun ac aelodau lleol Cyngor Sir Ddinbych yn cydweithio i gefnogi'r 'stryd fawr'.

PENDERFYNWYD*: derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Gorffennaf 2021. Bydd y Dirprwy Glerc yn cydlynu'r gweithgor ar y cyd.*

70. Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM BROSIECT YR HEN LYS

Darparwyd y wybodaeth ddiweddaraf am brosiect Yr Hen Lys.

71. Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM SEDD SY'N DIGWYDD DOD YN WAG AR GYFER CYNGHORYDD TREF

Eglurodd y Dirprwy Glerc y bydd y sedd wag yn cael ei hysbysebu tan 16 Gorffennaf 2021. Bydd Swyddog Canlyniadau Cyngor Sir Ddinbych wedyn yn rhoi gwybod iddi a fydd is-etholiad. .

72. DYFODOL RHUTHUN A'R RHWYDWAITH *URBAN ROOMS*

Rhoddodd y Cyng Harris y wybodaeth ddiweddaraf am Ddyfodol Rhuthun a'r Rhwydwaith *Urban Rooms*.

PENDERFYNWYD*: y bydd y Dirprwy Glerc yn cydlynu gweithgor i ddatblygu menter*

Dyfodol Rhuthun.

73. CRONFA CODI'R GWASTAD

Rhoddodd y Dirprwy Glerc y wybodaeth ddiweddaraf am Gronfa Codi'r Gwastad sydd ar gael fesul Etholaeth.

74. TREFNIADAU AR GYFER CYFARFOD PWERAU BRYS YN YSTOD Y TORIAD

PENDERFYNWYD*: y cynhelir y cyfarfod pwerau brys ar 7 Awst 2021 am 7pm.*

75. DATGANIAD ARIANNOL

Gofynnwyd i'r aelodau dderbyn a chymeradwyo'r datganiad ariannol am y cyfnod sy'n dod i ben ar 30 Mehefin 2021.

PENDERFYNWYD*: derbyn a chymeradwdyo'r datganiad ariannol am y cyfnod sy'n dod i ben ar 30 Mehefin 2021.*

76. CYFRIFON I'W TALU

PENDERFYNWYD*: cymeradwyo taliad yr eitemau a ganlyn:*

O gyfrif cyfredol Cyngor Tref Rhuthun:

OB	Plwyf Eglwysig Eglwys Sant Pedr	Defnyddio Eglwys Sant Pedr ar gyfer Sul Dinesig 2021		260.00
OB	Ede & Ravenscroft	Prynu ffrilen newydd i'r Maer (Lês) gyda bib a *velcro*	*	90.50
OB	Fineline	Argraffu llyfrynnau Gwasanaeth Dinesig y Maer		84.23
OB	Marian Rees	Gwasanaethau cyfieithu ar y pryd Gorffennaf 2021	*	90.00
OB	J&C Brimble	Dyfrio Basgedi Crog Cyngor Tref Rhuthun		921.15
OB	Anne Roberts	Ad-daliad am dalu am hysbyseb recriwtio		89.25
OB	Hill & Roberts	Gwasanaethau cyfrifo a chyflogres ar gyfer mis Gorffennaf 2021	*	240.00
OB	CIC Llanfwrog	Gwasanaethau torri glaswellt - Gorffennaf 2021		369.84
OB	Ruthin Décor	Cynfas lwch a brwshis paent		4.93

(Mae'r eitemau sydd wedi'u nodi â * uchod yn cynnwys TAW y gellir ei adfer)

O gyfrif Hen Lys Cyngor Tref Rhuthun:

OB	Scottish Power	Costau trydan 19/03/21 – 17/06/21		371.13
OB	BT Business	Ffôn Cwmwl a gwasnaeth band eang service	*	£67.19

RHAN DAU

Cynigiwyd ac eiliwyd fod y drafodaeth am yr eitemau a ganlyn i gael ei chynnal yn breifat oherwydd y tebygrwydd o ddatgelu gwybodaeth sensitif. Penderfynwyd ar hyn, daethpwyd â'r gweddarllediad i ben a gadawodd y Cynghorwyr Sir, aelodau'r cyhoedd a'r wasg y cyfarfod.

77. CLERC Y DREF A SWYDDOG ARIANNOL CYFRIFOL – CADARNHAU'R PENODIAD A CHYCHWYN SWYDD

PENDERFYNWYD*: y bydd Clerc y Dref a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol newydd yn dechrau*

yn ei swydd ar 26 Gorffennaf 2021 ac y caiff ei thalu yn unol â'i phrofiad a'i chymwysterau.

78. CLERC DROS DRO Y DREF

***PENDERFYNWYD**: y bydd y Dirprwy Glerc yn cael ei thalu ar gyfradd sy'n unol â rôl Clerc y Dref am y cyfnod y bu'n cyflawni'r gwaith.*

79. Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM Y FELODROM

***PENDERFYNWYD**: y bydd Cyngor Tref Rhuthun yn neilltuo £5,000 i brosiect y Felodrom.*

80. COFRESTRU AR GYFER TAW

***PENDERFYNWYD**: y bydd Cyngor Tref Rhuthun yn cofrestru ar gyfer TAW.*

81. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

***PENDERFYNWYD**: cadarnhau y cynhelir y cyfarfod arferol nesaf nos Lun 27 Medi 2021 am 7pm.*